CLYBIAU FFERMWYR IFANC
C E R E D I G I O N
YOUNG FARMERS CLUBS

Anne M Jones
Trefnydd y Sir

C.Ff.I. Ceredigion
Canolfan Addysg Felinfach
Dyffryn Aeron
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 8AF
Ffôn: 01570 471444
E-bost: ceredigion@yfc-wales.org.uk

Anne M Jones
County Organiser

Y.F.C. Ceredigion
Felinfach Education Centre
Aeron Valley
Lampeter
Ceredigion
SA48 8AF
Tel: 01570 471444
E-mail: ceredigion@yfc-wales.org.uk

14/6/18

Annwyl Swyddogion,

Fformat Cyfarfod Blynyddol

Mae wedi dod i'n sylw nad yw pob clwb yn siŵr beth yw fformat Pwyllgor Blynyddol Clwb Ffermwyr Ifanc felly amgaeaf rhai canllawiau i'w dilyn.

Mae angen hysbysu pawb o'r AGM, hefyd rhoi poster i fyny yn eich pentref/papur bro!

- Dylai Llywydd presennol y clwb gadeirio ar ddechrau'r cyfarfod, gan drosglwyddo'r awenau i'r Is-lywydd pan gaiff ei (h)ethol yn Lywydd yng nghanol y cyfarfod.

- Dyma enghraifft o Agenda Cyfarfod Blynyddol:-

1. Ymddiheuriadau
2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blynyddol diwethaf
3. Materion yn codi o'r cofnodion
4. Gohebiaeth
5. Adroddiad y Trysorydd (Mantolen y flwyddyn)
6. Adroddiad Llywydd y clwb
7. Ethol Swyddogion newydd
   Llywydd
   Is-lywydd
   Cadeirydd
   Is-gadeirydd
   Ysgrifennydd (Is?) /
   Ysgrifennydd Cofnodion

Ysgrifennydd Rhaglen
Trysorydd (Is?)
Gohebydd y Wasg
Llyfr Lloffion
Arweinyddion

8. Ethol aelodau ar gyfer pwyllgorau'r Sir
   Fforwm Ieuenctid (pawb sydd eisiau mynychu o dan 18!!)
   Materion Gwledig (2)
   Pwyllgor Gweithgareddau (2)
   Pwyllgor Gwaith (6) (angen 3 ar Restr A a 3 i Restr B)
9. Unrhyw fater arall

Gobeithio bod y pwyntiau uchod yn ychydig o gymorth i chi wrth drefnu eich cyfarfod. Os am ragor o help, cofiwch ffonio!

Pob hwyl,

Anne M Jones
Trefnydd y Sir